

2016 Rhif (Cy.)

2016 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Amryw o Strydoedd, Llangollen,
Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros)
2016

The A5 Trunk Road (Various
Streets, Llangollen, Denbighshire)
(Prohibition of Waiting)
Order 2016

Gwnaed 18 Gorffennaf 2016

Made 18 July 2016

Yn dod i rym 20 Gorffennaf 2016

Coming into force 20 July 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaerdybi (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 London to Holyhead Trunk Road (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (“the 1984 Act”), and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Gorffennaf 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Amryw o Strydoedd, Llangollen, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2016.

1. This Order comes into force on 20 July 2016. The title to this Order is The A5 Trunk Road (Various Streets, Llangollen, Denbighshire) (Prohibition of Waiting) Order 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

2. (1) In this Order -

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person's badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

“disabled person's badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2 of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

mae i “disg barcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

“parking disc” (“*disg barcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3).

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(2) For the purpose of this Order a vehicle shall be regarded as displaying:

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:

(i) a disabled person's badge in the relevant position if:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd na phanel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg barcio yn y lle perthnasol:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd na phanel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 5 a 6, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 rhwng 08:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 5 a 6, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar unrhyw ddiwrnod.

Esemptiadau

5. Ni fydd dim yn erthyglau 3 a 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited on the dashboard or fascia panel so that the front of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle; or

(b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel, the badge is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the front of the badge is clearly legible from outside the vehicle; and

(ii) a parking disc in the relevant position if:

(a) in the case of a vehicle fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited on the dashboard or fascia panel so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle; or

(b) in the case of a vehicle not fitted with a dashboard or fascia panel the disc is exhibited in a conspicuous position in or on the vehicle so that the quarter-hour period during which the period of waiting began is clearly legible from outside the vehicle.

(3) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibition

3. Except as provided in articles 5 and 6, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule 1 between 08:00 hours and 19:00 hours on any day.

4. Except as provided in articles 5 and 6, no person shall, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 on any day.

Exemptions

5. Nothing in articles 3 and 4 shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule for so long as may be necessary to enable:

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell deilegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(4);

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y friggâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

6. Ni fydd dim yn erthyglau 3 a 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of trunk road; or

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any telegraphic line as defined in the Communications Act 2003(4);

(d) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident; or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside his control.

6. Nothing in articles 3 and 4 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled persons badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road referred to in the Schedules for a period not exceeding 3 hours, subject to there being an interval of at least one hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on any of those sides of the specified length of the trunk road described in Schedules 1 and


anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arni yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, ar yr amod bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw ochrau o'r darnau penodedig o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

Dirymu

7. Mae Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Llangollen) (Gwahardd Aros) 1982(5) a Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Queen Street, Llangollen) (Gwahardd Aros) 2001(6) drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Gorffennaf 2016



Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 ac 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 2000/1786.

(3) O.S. 2000/1785.

(4) 2003 p. 21.

(5) O.S. 1982/806.

(6) O.S. 2001/3204 (Cy. 68).

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

**DIM AROS RHWNG 08:00 A 19:00 AR UNRHYW
DDIWRNOD**

i. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45m i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â West Street am bellter o 93m tua'r dwyrain.


2.

Revocation

7. The Trunk Road (Various Streets, Llangollen) (Prohibition of Waiting) Order 1982(5) and The A5 Trunk Road (Queen Street, Llangollen) (Prohibition of Waiting) Order 2001(6) are hereby revoked.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated 18 July 2016



Richard Morgan
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 2000/1786.

(3) S.I. 2000/1785.

(4) 2003 c.21.

(5) S.I. 1982/806.

(6) S.I. 2001/3204 (w.68).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

**NO WAITING BETWEEN 08:00 AND 19:00 ON
ANY DAY**

i. That length of the north side of the trunk road which extends from a point 45m west of the centre point of its junction with West Street for a distance of 93m eastwards.

ii. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd yr Eglwys am bellter o 192m tua'r gorllewin.

iii. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 51.5m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys am bellter o 58m tua'r dwyrain.

iv. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 55m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Nant am bellter o 38.5m tua'r gorllewin.

v. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 7.5m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Butlers Hill am bellter o 228.5m tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG AR UNRHYW DDIWRNOD

vi. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 43m i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Farchnad am bellter o 99.5m tua'r dwyrain.

vii. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107m i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Castell am bellter o 198m tua'r dwyrain.

viii. Y darn hwnnw o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd orllewinol â Choed Afon am bellter o 38m tua'r gorllewin.

ix. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 80m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Nant am bellter o 25m tua'r gorllewin.

x. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 124m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Castell am bellter o 216m tua'r gorllewin.

xi. Y darn hwnnw o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 166m i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Neuadd hyd at bwynt 43m i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Farchnad.

ii. That length of the north side of the trunk road which extends from its junction with Church Street for a distance of 192m westwards.

iii. That length of the north side of the trunk road which extends from a point 51.5m east of the centre point of its junction with Church Street for a distance of 58m eastwards.

iv. That length of the south side of the trunk road which extends from a point 55m east of the centre point of its junction with Brook Street for a distance of 38.5m westwards.

v. That length of the south side of the trunk road which extends from a point 7.5m east of the centre point of its junction with Butlers Hill for a distance of 228.5m westwards.

SCHEDULE 2

PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME ON ANY DAY

vi. That length of the north side of the trunk road which extends from a point 43m west of the centre point of its junction with Market Street for a distance of 99.5m eastwards.

vii. That length of the north side of the trunk Road which extends from a point 107m west of the centre point of its junction with Castle Street for a distance of 198m eastwards.

viii. That length of the north side of the trunk road which extends from its western junction with Coed Afon for a distance of 38m westwards.

ix. That length of the south side of the trunk road which extends from a point 80m east of the centre point of its junction with Brook Street for a distance of 25m westwards.

x. That length of the south side of the trunk road which extends from a point 124m east of the centre point of its junction with Castle Street for a distance of 216m westwards.

xi. That length of the south side of the trunk road which extends from a point 166m east of the centre point of its junction with Hall Street to a point 43m west of the centre point of its junction with Market Street.



Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Gymru
Working on behalf of the
Welsh Government

*Partnriaeth rhwng Awdurdodau Lleol
Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd,
Powys, Meicsam, ac Ynys Môn
ar ran Llywodraeth Gymru*

*A Partnership between the Local Authorities of
Ceredigion, Conwy, Denbighshire, Flintshire, Gwynedd,
Powys, Wrexham and Isle of Anglesey
on behalf of Welsh Government*

RHIF GWATHBLOB NUMBER:
H2/13211

GRADDFENYDD/SCALES:
1:1000 at A2

RHIF GRID/GRID REF:
SJ2241

DYLUJWYD GAN/DRAWN BY:
JB

GWIRIWDYD GAN/CHECKED BY:
SG

NEWIDIADAU/AMENDMENTS:


A	Original drawing	DYDDIAD NEWID CLAF: LAST EDIT DATE:	25 09 2013
B	Road marking changes	DYDDIAD NEWID CLAF: LAST EDIT DATE:	06 06 2013

TEITL/TITLE:
**A5 LLANGOLLEN
PROPOSED TRO**

RHIF LLUNIAD:
DRAWING NUMBER
H2/13211/12 01 B


ISSUE

NOTE: PRIMROSE YELLOW 75MM LINE TO BE CONSIDERED



KEY:

- PROPOSED 8m - 7m PROHIBITION OF WAITING (Single Yellow Lines)
- PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME (Double Yellow Lines)
- PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME (Double Yellow Lines)



ISSUE

KEY:

- PROPOSED 8m - 7m PROHIBITION OF WAITING (Single Yellow Lines)
- PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME (Double Yellow Lines)
- PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AT ANY TIME (Double Yellow Lines)